# Monitro a diogelu trefniadau ad-dalu dyledion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â monitro a diogelu trefniadau ad-dalu dyledion.  Mae'n ymwneud â defnyddio gwybodaeth eich sefydliad ynghylch trefniadau ad-dalu yn effeithiol i wirio bod cyfrifon wedi cael eu rheoleiddio, yn ogystal ag achosion o beidio â gwneud ad-daliadau y gall fod angen i chi gymryd camau pellach yn eu cylch. Dylid cynnal lefelau priodol o gysylltiad rhwng y credydwr a'r dyledwr, neu eu cynrychiolydd enwebedig, i ddiogelu a chynnal ad-daliadau boddhaol yn y dyfodol. Bydd angen i chi ddangos cysondeb wrth wneud penderfyniadau a gweithredu ag uniondeb bob amser.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Gwirio bod gweithdrefnau yn eu lle i adolygu achosion yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
2. Nodi achosion yng nghyfrifon dyledwyr o reoleiddio, setlo, peidio â gwneud ad-daliadau a pharhau i beidio â gwneud ad-daliadau
3. Blaenoriaethu achosion lle mae angen cymryd camau pellach, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. Mewn ymateb i barhau i beidio â gwneud ad-daliadau, cychwyn camau gweithredu priodol ar gyfer amgylchiadau dyledwyr yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Parhau i adolygu trefniadau ad-dalu a chyd-drafod a chytuno ar drefniadau ad-dalu diwygiedig addas gyda dyledwyr, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Gwirio bod hysbysiadau cyfreithiol yn cael eu cyflwyno yn ôl y galw, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
7. Gwirio bod cyfrifiadau ad-daliadau diwygiedig yn gywir, a'u bod yn cymryd i ystyriaeth y gyfradd llog y cytunwyd arni gan y sefydliad
8. Monitro lefelau ad-daliadau ac unrhyw ddiffygion, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
9. Cynnal lefelau priodol o gysylltiad â dyledwyr yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
10. Cadw mewn cysylltiad â'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli i sicrhau bod y lefelau ad-dalu cyfredol yn ddigonol a chymryd camau priodol lle nad yw hynny'n wir bellach
11. Gwirio bod gweithgareddau monitro a diogelu yn cael eu cyflawni yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
12. Gwirio bod cofnodion cywir ac wedi'u diweddaru o newidiadau i amgylchiadau ariannol dyledwyr yn cael eu cadw yn unol â gofynion eich sefydliad
13. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol
14. Nodi risgiau posibl, gan gynnwys unrhyw weithgaredd twyllodrus yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer monitro achosion a lefelau'r cyfathrebu â'r partïon perthnasol
2. Y defnydd o systemau cyfrifiadurol a phryd y gallai fod angen eu diystyru
3. Sut mae adnabod rheoleiddio cyfrifon, setliadau sydd heb eu had-dalu ac achosion lle mae peidio ag ad-dalu yn parhau
4. Sut mae blaenoriaethu achosion ar gyfer gweithredu pellach
5. Y camau mae'n ofynnol i chi eu cymryd, a phryd, oddi mewn i'r ad-dalu
6. Sut mae canfod pryd mae'n briodol ailagor trafodaeth ynghylch ad-daliadau, a phryd nad yw hynny'n briodol
7. Sut mae cyd-drafod i sicrhau canlyniad effeithiol
8. Y mathau o hysbysiadau cyfreithiol a gyflwynir yng nghyswllt casglu dyledion
9. Sut mae gwirio cywirdeb a dilysrwydd cyfrifiadau ad-dalu
10. Sut mae adnabod problemau posibl gyda'r dyledwr a allai effeithio ar wneud ad-daliadau yn y dyfodol
11. Hawliau cyfreithiol gwahanol fathau o gredydwyr a dyledwyr
12. Targedau gweithredol eich sefydliad fel y maent yn effeithio ar eich gweithgareddau
13. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cofnodi a storio gwybodaeth
14. Ymarfer a gweithdrefnau eich sefydliad yng nghyswllt adnabod, hybu a chymhwyso safonau moesegol
15. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso deddfau, trwyddedau, rheoliadau a chodau fel y maent yn effeithio ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn arddangos pendantrwydd a hyder wrth weithredu
2. Rydych yn ymdrin â'ch gwaith mewn modd trefnus
3. Rydych yn ymddwyn yn broffesiynol ac yn gwrtais wrth ddelio gydag eraill

FSPDC06

Monitro a diogelu trefniadau ad-dalu dyledion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPDC06 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Casgliadau Dyledion |
| **Geiriau Allweddol** | Ôl-ddyledion; credyd; ad-dalu; peidio â gwneud ad-daliadau; heb eu talu; risg; ansolfedd; credydwr; dyledwr; esgaladu. |